| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **14 MAWRTH 2016** |
| **PWNC:** | **COMPACT YNYS MÔN A CHÔD YMARFER YNYS MÔN AR GYFER CYLLIDO'R TRYDYDD SECTOR** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNG. H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI / BETHAN HUGHES OWEN**<br>01248 751865<br>CLAIREKLIMASZEWSKI@YNYSMON.GOV.UK |
| **AELODAU LLEOL:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

## 1. PWRPAS

Cyflwyno Cytundeb Compact diwygiedig rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector i'w gymeradwyo, gan gynnwys Côd Ymarfer Ynys Môn ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector.

## 2. CEFNDIR

Ym mis Tachwedd 2014 comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer cyllido'r Trydydd Sector. Nod yr adolygiad oedd adnabod faint o drefniadau cyllido sy'n bodoli rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector. Roedd yr adolygiad hefyd yn gwerthuso'r gweithdrefnau a'r systemau sydd ar waith i fonitro'r trefniadau cyllido gyda'r Trydydd Sector. Comisiynwyd yr adolygiad er mwyn cydymffurfio â Chôd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector ac mewn ymateb i argymhellion archwilio. Nododd yr adolygiad fod tua £10 miliwn yn cael ei wario ar drefniadau gyda'r Trydydd Sector. Mae hyn yn cynnwys nifer o wasanaethau o fewn y Cyngor ac mae'r trefniadau'n ymwneud ag amrywiaeth o nwyddau, gwasanaethau a grantiau. Roedd y gwariant mwyaf sylweddol ar leoliadau gofal cymdeithasol arbenigol. Nododd yr adolygiad hefyd bod tua 50% o'r trefniadau cyllido yn cael eu hariannu gan grantiau allanol, yn bennaf gan Lywodraeth Cymru. Gwnaeth yr adolygiad nifer o argymhellion ar gyfer gwella gweithdrefnau mewn perthynas â threfniadau cyllido'r Trydydd Sector. Un argymhelliad oedd adolygu'r Compact fel ei fod yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru. Argymhelliad allweddol arall oedd cynhyrchu Côd Ymarfer Ynys Môn ar gyllido'r Trydydd Sector a fydd yn ymgorffori gofynion Llywodraeth Cymru, ond hefyd yn amlinellu gweithdrefnau cyson y dylid eu gweithredu ledled y Cyngor mewn perthynas â threfniadau cyllido'r Trydydd Sector.

## 3. COMPACT YNYS MÔN

**3.1** Mae Compact Ynys Môn yn gytundeb partneriaeth rhwng y Trydydd Sector a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'n darparu fframwaith lle gall y Cyngor a'r Trydydd Sector weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i wella ansawdd bywyd i bobl Ynys Môn. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gael compact gyda'r Trydydd Sector. Mae hyn fel arfer gyda'r Cyngor Sector Gwirfoddol (CSG) ar gyfer yr ardal leol. Medrwn Môn yw CSG Ynys Môn a'u rôl yw cynrychioli'r sector yn ei gyfanrwydd. Mae Medrwn Môn, felly, yn un o lofnodwyr allweddol y Compact. Cyhoeddwyd y compact gwreiddiol rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a'r Trydydd Sector yn 2007. Roedd Grŵp Iechyd Lleol Ynys Môn hefyd yn rhan o'r compact hwn. Ar 18 Mawrth, 2013 rhoddodd y Pwyllgor Gwaith sylw i gompact diwygiedig a phenderfynodd ei gymeradwyo. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn rhan o'r compact hwn oherwydd diddymu'r byrddau iechyd lleol a chreu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cytunodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar wahân i gompact ar gyfer gwasanaethau iechyd gyda'r Trydydd Sector ar draws Cymru. Yn ogystal â chymeradwyo'r compact diwygiedig, ar 18 Mawrth, 2013 cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y Polisi Gwirfoddoli hefyd (gweler Atodiad 3).

**3.2 Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector**

Ym mis Ionawr 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun diwygiedig ar gyfer y Trydydd Sector sy'n cynnwys y Côd Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector. Mae'r côd yn nodi ar dudalen 22:-

"*... Rhaid i bob corff cyhoeddus arall (gan gynnwys cyrff y GIG ac awdurdodau lleol) gydymffurfio â'r Côd mewn achosion lle mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid wedi'i neilltuo iddynt. Disgwylir hefyd y bydd awdurdodau lleol Cymru, …….. yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn (fel y dangosir uchod) ar ffurf Compactau Trydydd Sector lleol."*

**3.3** Mae'r Compact a gymeradwywyd yn 2013 wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru felly i adlewyrchu egwyddorion Llywodraeth Cymru yn unol â'r Côd. Adolygwyd y Compact mewn partneriaeth â Medrwn Môn. Cyflwynwyd y compact diwygiedig i Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar 9 Gorffennaf 2015 a nodwyd, yn dilyn cytundeb Penaethiaid, y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i lansio'r Compact a'r Côd Ymarfer cysylltiedig yn ffurfiol. Llofnodwyd y Compact gan Gadeirydd Medrwn Môn ac Arweinydd y Cyngor yn Sioe Môn ym mis Awst 2015. Mae'r Compact wedi'i atodi fel Atodiad 1 i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo'n ffurfiol.

## 4. CÔD YMARFER YNYS MÔN AR GYFER CYLLIDO'R TRYDYDD SECTOR

**4.1** Yn ogystal â'r Compact diwygiedig, cynhyrchwyd Côd Ymarfer Ynys Môn ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector i ddarparu canllawiau ymarferol ar yr egwyddorion a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol ar gyfer trefniadau cyllido'r Trydydd Sector. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a gomisiynir o'r Trydydd Sector a grantiau i'r Trydydd Sector. Mae'r Côd hefyd yn cynnwys egwyddorion gorfodol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllido'r trydydd sector. Mae gofynion Côd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chyllid sydd wedi'i neilltuo. Fodd bynnag, er cysondeb, mae Côd Ymarfer Ynys Môn ar Gyllido'r Trydydd Sector yn berthnasol i'r holl drefniadau i gyllido'r Trydydd Sector. Cynhyrchwyd y Côd mewn partneriaeth â Medrwn Môn a chynhaliwyd digwyddiad ar 1 Hydref 2016 i ymgynghori ar y Côd gyda chynrychiolwyr o'r Trydydd Sector, y Cyngor a defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan yn y digwyddiad ymgynghori. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r Côd yn y digwyddiad a gofynnir felly i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo mabwysiadu'r Côd (Atodiad 2) yn ffurfiol o fis Ebrill 2016.

## 5. ARGYMHELLION:

**5.1** Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo Compact Ynys Môn sydd wedi ei nodi yn Atodiad 1;

**5.2** Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo Côd Ymarfer Ynys Môn ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector fel y nodir ef yn Atodiad 2;

**5.3** Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Côd Ymarfer Gwirfoddoli fel y nodir yn Atodiad 3.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

D/B

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

| | | |
|---|---|---|
| **CH -** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | |
| | Ydi | |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | Ydi | |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |
| | • Atodiad 1 – Compact Ynys Môn<br>• Atodiad 2 – Côd Ymarfer Ynys Môn ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector<br>• Atodiad 3 – Polisi Gwirfoddoli (a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2013) | |
| **FF -** | **Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | |
| | | |

**Atodiad 1**

# Compact Ynys Môn




Cytundeb Partneriaeth
rhwng Cyngor Sir Ynys Môn
a'r Trydydd Sector
yn Ynys Môn

## Rhagair

Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) am y cyfnod 2013-17 yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer ‘Ynys Môn Newydd’; ar gyfer ‘Ein Hynys, Ein Dyfodol’[i]. “Y nod ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw y byddwn, erbyn 2017, yn gyngor sy’n cael ei redeg yn dda, yn arloesol ac yn edrych tuag allan, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a’n partneriaethau a hynny er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon o ansawdd da a werthfawrogir yn fawr gan ein dinasyddion”.[ii]

Gellir cwrdd ag anghenion a gobeithion pobl os bydd sectorau’n fodlon adeiladu partneriaethau cryf, iach ac egnïol i wella gwasanaethau a gwireddu’r weledigaeth yn y cynllun ar gyfer Ynys Môn. Y compact hwn yw ein hymrwymiad fel partneriaeth rhwng y trydydd sector a CSYM i weithio’n dda gyda’n gilydd i wella canlyniadau ar gyfer Ynys Môn.

Mae’r Compact yma’n disodli ac yn adeiladu ar y Compactau blaenorol rhwng y Trydydd Sector a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae hefyd yn ategu’r Compact rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a’r Trydydd Sector ar draws Gogledd Cymru a’r Compact Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mae’r egwyddorion Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyllido’r Trydydd Sector, dyddiedig Ionawr 2014, yn hollbwysig i’n hymagwedd tuag at weithio mewn partneriaeth ac fe’u hadlewyrchir yn y Compact hwn a’n Côd Ymarfer ar Gyllido’r Trydydd Sector (2015). Anogir yr holl bartneriaid i gefnogi egwyddorion ac arferion y Compact ac unrhyw godau ymarfer cysylltiedig. Mae’r Compact wedi ei arwyddo hefyd gan Medrwn Môn, sef y Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Ynys Môn. Medrwn Môn yw’r sefydliad ymbarél sy’n cefnogi, hyrwyddo a chynghori sefydliadau'r trydydd sector lleol. Pleser o’r mwyaf yw cael cyflwyno’r Compact Ynys Môn newydd. Ei nod yw ein cynorthwyo i adeiladu ar ein perthnasau gweithio cyfredol a gwella ein gwaith partneriaeth er budd Ynys Môn.

Llofnod:

______________________________

**Cadeirydd Medrwn Môn**

**Dyddiad:**

______________________________

**Arweinydd CSYM**

**Dyddiad:**

Logos yma

## Rhagair

Cytundeb partneriaeth rhwng y trydydd sector a'r awdurdod lleol yn Ynys Môn yw Compact Ynys Môn. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu nodau ac amcanion cyffredin, parch rhwng y naill ochr a'r llall a dealltwriaeth er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod a phartneriaid trydydd sector i wella ansawdd bywyd i bobl Ynys Môn.  Rydym yn cydnabod y gallwn gyflawni mwy ar gyfer pobl a chymunedau Môn trwy gydweithio, yn arbennig mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol.

Mae'r Compact hwn a'n partneriaeth yn chwarae rôl hollbwysig o ran cwrdd â blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor o fod yn awdurdod sy'n canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned. Mae ein partneriaid yn y trydydd sector yn tueddu i fod mewn cysylltiad agosach gyda'r gymuned ac maent yn chwarae rôl allweddol i hyrwyddo cyfranogiad dinasyddion, gan ymgysylltu gyda nhw wrth ddylunio, darparu a gwella'r holl wasanaethau cyhoeddus.

Bwriedir i'r Compact lywio'r broses o weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae ar gyfer gweithredu Compact Ynys Môn.

Mae'r Polisi Gwirfoddoli a Chôd Ymarfer Ynys Môn ar Gyllido'r Trydydd Sector yn mynd law yn llaw â'r Compact hwn.  Gellir datblygu codau ymarfer a pholisïau eraill fel y maent yn berthnasol i adeiladu ar y gwaith partneriaeth gadarnhaol sy'n digwydd ar hyn o bryd.  Mae Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyllido'r Trydydd Sector (2014) yn cynnwys nifer o egwyddorion cyffredinol.

Mae'r egwyddorion hyn fel y crynhoir nhw isod, yn sylfaen bwysig ar gyfer Compact a Chôd Ymarfer Ynys Môn:-

### Egwyddorion Cyllido Llywodraeth Cymru ac Ynys Môn

- Rhaid i unrhyw drefniant cyllido gydymffurfio ag amcanion polisi strategol y Cyngor, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Llywodraeth Cymru fel y maent yn berthnasol i'r ffrwd gyllido;
- Mae'r Cyngor yn parchu ac yn gwerthfawrogi annibyniaeth y sector;
- Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd deialog gynnar ac adeiladol gyda'r trydydd sector a bydd yn ceisio bod yn dryloyw ac yn wrthrychol yn ei waith gyda'r Trydydd Sector.  Yr un modd, bydd y trydydd sector yn ymgysylltu mewn deialog gynnar ar y holl faterion sy'n effeithio'r cyngor o ran ei drefniadau trydydd sector gan gynnwys gofyn am ganiatâd pan yn defnyddio cyllid y cyngor ar gyfer cyllid cyfatebol;
- Bydd y Cyngor yn ceisio gwneud penderfyniadau amserol ynghylch trefniadau cyllido a chomisiynu yn unol â chod ymarfer Llywodraeth Cymru a'r rheoliadau Caffael Cyhoeddus fel sy'n berthnasol.  Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i sefydliadau trydydd sector am gyllid yn y dyfodol o leiaf dri mis cyn i'r cytundeb cyllido cyfredol ddod i ben;
- Sicrwydd ynghylch cyllid - mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo trefniadau cyllido tymor hwy lle bynnag y mae hynny'n bosibl ac yn briodol.  Mae'r Cyngor yn cydnabod manteision trefniadau cyllido tymor hwy a bydd yn gweithredu trefniadau cyllido tymor hwy lle gall wneud hynny ac yn amodol ar yr adnoddau cyllido digonol;
- Lefelau cyllido teg – o ran trefniadau cyllido'r Trydydd Sector, bydd taliadau'n cael eu gwneud yn unol â chyfraddau chwyddiant lle mae hynny'n fforddiadwy.  Fodd bynnag, ar adeg o bwysau ariannol, mae'r Cyngor yn ystyried y byddai'n rhesymol disgwyl i'r sefydliadau trydydd sector hefyd fod yn ddarbodus.  Er mwyn helpu i sicrhau tegwch, bydd y Cyngor yn anelu at fod mor gyson ag sy'n bosibl o ran chwyddiant / arbedion effeithlonrwydd fel y gwneir yn fewnol.  Bydd anghenion penodol sectorau arbenigol hefyd yn cael eu cymryd i ystyriaeth i'r graddau y mae hynny'n bosibl;

- Gwerth am Arian – disgwylir i sefydliadau trydydd sector sicrhau fod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd ystyriaethau gwerth am arian hefyd yn berthnasol i ddyrannu grantiau ac i gaffael;
- Adfer costau llawn - bydd cyllid trydydd sector ar gyfer prosiect neu wasanaeth penodol yn cynnwys y gost lawn o redeg prosiect neu wasanaeth, gan gynnwys cyfran o'r gorbenion ar yr amod fod adnoddau cyllido ar gael. Nid yw hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae'r Cyngor yn rhoddi grant neu gyfraniad i sefydliad trydydd sector tuag at eu costau craidd;
- Egwyddorion Comisiynu - disgwylir i gyrff cyhoeddus weithredu egwyddorion comisiynu arfer orau a disgwylir i sefydliadau trydydd sector ymgysylltu'n llawn gyda'r prosesau comisiynu;
- Taliadau - bydd y Cyngor yn gwneud taliadau ar eu hôl hi. Dylai anfonebau gynnwys manylion digonol i egluro pwrpas y fanyleb a dylid cyflwyno gwybodaeth fonitro hefyd, fel sy'n berthnasol i'r cytundeb cyllido. Mewn achosion eithriadol, bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am daliadau ymlaen llaw yn ysgrifenedig lle mae tystiolaeth gref o'r angen. Ni fyddir yn gwneud taliadau ymlaen llaw ond mewn amgylchiadau eithriadol;
- Triniaeth deg a rhesymol - bydd y Cyngor yn anelu at weithredu argymhelliad Llywodraeth Cymru i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, sef y dylid, fel arfer da, ymgynghori gyda'r trydydd sector am gyfnod o ddeuddeg wythnos a rhoddi cyfnod rhybudd o ddeuddeg wythnos cyn gwneud unrhyw newidiadau neu benderfyniadau a allai arwain at dynnu'n ôl cyllid neu leihau arno'n sylweddol;
- Dull ar y cyd o fonitro, gwerthuso ac archwilio - rhaid i'r holl bartneriaid ymgysylltu'n llawn yn y prosesau hanfodol hyn;
- Nodi arbenigedd a datblygu gallu i gyflawni - mae Llywodraeth Cymru, yr un modd â CSYM, yn cydnabod bod amrediad eang o wybodaeth a sgiliau yn y Trydydd Sector ar draws Cymru. Mae'r trydydd sector yn gallu, ac mae yn, gwneud cyfraniad mawr i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r Cyngor ac at wella bywydau pobl Cymru a chymunedau Ynys Môn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod sefydliadau trydydd sector angen cymorth er mwyn sicrhau bod eu potensial yn cael ei wireddu'n llawn a bod arfer da yn cael ei rhannu'n eang. Mae'r cyngor yn cydnabod natur a sgiliau amrywiol a gynigir gan oddeutu 700 o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithredu ym Môn a gall y trydydd sector chwarae rôl allweddol o ran trawsnewid gwasanaethau'r Cyngor;
- Amrywiaeth – mae'r Cyngor yn cydnabod anghenion amrywiol pobl a chymunedau, a'r amrediad o wasanaethau i gwrdd â'r anghenion hyn. Mae'r côd ymarfer hefyd yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a dylai cyfleon cyfartal fod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn y trydydd sector;
- Arloesedd – mae'r côd ymarfer yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector a chyda phartneriaid eraill i nodi arferion arloesol sy'n gwella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn Ynys Môn yn arbennig felly fel rhan o agenda Trawsnewid Ynys Môn;
- Llywodraethiant da a diwydrwydd dyladwy - mae'r egwyddor hon yn arwyddo'r angen am lywodraethiant da a diwydrwydd dyladwy gan y Cyngor a sefydliadau Trydydd Sector fel ei gilydd;
- Monitro'r côd ymarfer ar gyfer cyllido'r trydydd sector – mae'r egwyddor derfynol yn ymwneud â chydymffurfio gyda'r côd. Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu prosesau monitro cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r côd. Mae fersiwn Ynys Môn o'r côd yn darparu canllawiau gweithdrefnol a fydd yn cefnogi'r broses o gydymffurfio gyda chôd Llywodraeth Cymru.

Source: Welsh Government, Code of Practice for Funding the Third Sector, 2014 p25-35 (adapted)

## Nodau'r Compact

Trwy'r Compact, byddwn yn datblygu'r bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector yn Ynys Môn trwy ein cynorthwyo i:-

- Gyfathrebu yn well gyda'n gilydd;
- Deall a pharchu barn y naill a'r llall;
- Gweithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol i gefnogi pobl Ynys Môn ac i ddatblygu gwasanaethau ar y cyd.

Rydym yn rhannu nod o ddarparu gwasanaethau o safon i bobl Ynys Môn. Rydym yn cydnabod bod gwerth ychwanegol mewn cydweithio mewn partneriaeth tuag at amcanion a nodau cyffredin. Mae gweithredu gwirfoddol ac ymgysylltiad cymunedol yn rhan hanfodol o gymdeithas gynhwysol a democrataidd a gall ychwanegu gwerth at ansawdd bywyd yn Ynys Môn. Cydnabyddir bod y trydydd sector yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Ynys Môn. Dylid parchu a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau a'r amrywiaeth rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Mae gan y naill sector a'r llall ei gyfrifoldebau a'i gyfyngiadau. Bydd y budd ehangach i Ynys Môn a'i dinasyddion yn ffocws allweddol ar gyfer ein gwaith partneriaeth. Hon fydd yr ystyriaeth bwysicaf un a bydd yn cael blaenoriaeth dros raglenni unigol yn ystod ein gwaith partneriaeth gyda'n gilydd.

Dylai'r berthynas rhwng y sectorau fod yn agored ac yn barchus a dangos ymddiriedaeth. Dylai pob sector geisio rhagoriaeth, mynediad cyfartal a chroesawu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd dylai pob sector gael yr un sylw a pharch. Mae gan sefydliadau ym mhob sector yr hawl i gyfrannu at faterion sydd yn cael effaith arnynt a'u herio.

## Gyda'n gilydd trwy'r Compact a'n gwaith partneriaeth byddwn yn…

- Cynorthwyo i feithrin trydydd sector ffyniannus, amrywiol ac annibynnol yn Ynys Môn gyda threfniadau cyllid a chontractio sydd yn cydymffurfio gyda'r gyfraith a gweithdrefnau ariannol;
- Hyrwyddo rheolaeth a llywodraethiant effeithiol yr awdurdod lleol a'r trydydd sector. Bydd yn sylfaen ar gyfer ymrwymiad ar y cyd i adeiladu ar gapasiti sefydliadau trydydd sector lle mae hynny'n gyson gyda chyfeiriad strategol cyffredin;
- Cynorthwyo i sicrhau bod y trydydd sector nid yn unig yn cymryd rhan mewn strwythurau cydweithio a phartneriaeth ond ei fod yn cael dylanwad gwirioneddol ar gynllunio a datblygu gwasanaethau lleol a mentrau cyhoeddus;
- Parhau i ddatblygu'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol fel cyfrwng cyswllt sydd wedi ei integreiddio gyda phrosesau gwneud penderfyniadau'r sector cyhoeddus a'r maes cynllunio ar y cyd ehangach. Bydd gan y Pwyllgor gynrychiolaeth o blith partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a'r trydydd sector;
- Annog yr holl sectorau i ddysgu o'r arferion gorau ac i geisio gwneud gwelliannau parhaus i'r modd y cynllunnir ac y darperir gwasanaethau;
- Darparu gweithdrefn ystyrlon ac effeithlon ar gyfer datrys anghytundebau mewn ffordd adeiladol ac agored. Bydd y cyfrifoldeb ar gyfer hyn yn gorwedd gyda chorff monitro a fydd y cynnwys cynrychiolwyr o blith y partneriaid sydd yn rhan o'r Compact;
- Er yn nodi nad yw'r trydydd sector yn gorff unedol, rhagwelir y bydd yr holl gynrychiolwyr hefo'r Awdurdod priodol i ddilyn i fyny unrhyw achosion lle ymddengys bod y Compact wedi ei dorri yn eu sector eu hunain. Yn achos partneriaid sector cyhoeddus, bydd ganddynt awdurdod i geisio datrys y fath faterion ar lefel uwch os oes angen;
- Datblygu Cynllun Gweithredu a rennir i gyflawni amcanion y Compact a chynhyrchu adroddiad gwaith blynyddol i'r awdurdod lleol a Medrwn Môn i'w ddosbarthu i sefydliadau trydydd sector;
- Cynorthwyo i sicrhau cydnabyddiaeth ehangach a mwy cynaliadwy o werth cymdeithasol gwirfoddoli o ran datblygiad proffesiynol a phersonol y gwirfoddolwyr a'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir.

## Addewidion y Partneriaid

Bydd yr awdurdod lleol a'r trydydd sector yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu, gweithredu a monitro'r Compact yn unol â'r weledigaeth a'r egwyddorion y cytunwyd arnynt. Byddwn hefyd yn gweithredu gofynion Côd Ymarfer Ynys Môn ar Gyllido'r Trydydd Sector[iii] a'r Polisi Gwirfoddoli[iv] fel y cymeradwywyd nhw gan y Pwyllgor Gwaith ar 4 Mawrth 2013. Bydd y cymorth hwn yn cynnwys:-

- Mae'r partneriaid yn gwneud ymrwymiad i gynnal safonau uchel o lywodraethu ac ymddygiad ac i gwrdd â dyletswyddau adrodd ac atebolrwydd tuag at gyllidwyr a defnyddwyr;
- Anogir y partneriaid i ddatblygu safonau ansawdd sy'n briodol i'r sefydliad gan gynnwys hyrwyddo arferion gorau a chyfleoedd cyfartal mewn gweithgareddau, gwaith, rôl gwirfoddolwyr a'r ddarpariaeth o wasanaethau;
- Bydd partneriaid yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau lle bynnag y mae modd gwneud hynny a gofalwyr lle mae'n briodol wrth ddatblygu a rheoli gweithgareddau a gwasanaethau; bydd adborth a gafwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau trwy ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y trydydd sector yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod lleol i gynorthwyo'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau;
- Mae'r partneriaid yn cadarnhau'r angen am godau ymarfer manwl i roi sylw i faterion allweddol fel y bydd angen a byddant yn adolygu eu gweithdrefnau a'u hamserlenni eu hunain yn wyneb unrhyw godau ymarfer;
- Bydd partneriaid yn sicrhau y bydd staff allweddol yn gallu cymryd rhan mewn trefniadau gwaith partneriaeth berthnasol i gefnogi'r compact hwn a'n partneriaid;
- Mae'r partneriaid yn cadarnhau'r angen am weithdrefnau i ddatrys anghytundebau;
- Bydd y partneriaid yn adolygu gweithrediad y Compact bob blwyddyn;
- Rhaid i'r holl bartneriaid ofyn am ganiatâd gan y swyddog enwebedig ymlaen llaw os cynigir unrhyw gyllid fel arian cyfatebol ar gyfer unrhyw ffrwd gyllido arall;
- Mae'r partneriaid yn gwneud ymrwymiad i barchu'r gyfraith a bod yn atebol iddi. Yn achos elusennau trydydd sector byddant yn glynu wrth y fframwaith cyfrifo a chanllawiau priodol eraill fel y pennwyd nhw gan y Comisiwn Elusennau.

---

[1] CSYM, 2013, Cynllun Corfforaethol 2013-17, Rhagair
[1] CSYM, 2013, Cynllun corfforaethol 2013-2017, tud 2
[1] Llywodraeth Cymru, Ionawr 2014, Y Côd Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector, tud 25-35
[1] CSYM, 2015, Côd Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector
[1] IACC, 2013, Polisi Gwirfoddoli

ATODIAD 2

# Cod Ymarfer Ynys Môn ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector




Mae'r cod ymarfer hwn yn nodi'r egwyddorion a'r gweithdrefnau ar gyfer trefniadau ariannu gyda'r Trydydd Sector

[

## Cynnwys


| Adran | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| **1.** | Cyflwyniad | 2 |
| **2.** | Nodau | 2 |
| **3**. | Beth yw Mudiad Trydydd Sector? | 2 |
| **4**. | Egwyddorion Sylfaenol | 2-4 |
| **5**. | Cwmpas | 4 |
| **6**. | Mecanweithiau Ariannu | |
| | **6.1** Grant neu Gaffael | 4-5 |
| | **6.2** Cyllid grant i'r Trydydd Sector | 5-8 |
| | **6.3** Contractau/caffael | 8-10 |
| **7**. | Cyllid grant i'r Awdurdod | 11 |
| **8**. | Taliadau i'r Trydydd Sector | 11 |
| **9**. | Rhoi gwybod am gyfleoedd ariannu | 11 |
| **10**. | Mathau o ariannu | 11 |
| **11**. | Amseriad yr hysbysiad ariannu | 12 |
| **12.** | Monitro a gwerthuso perfformiad | 12-13 |
| **13**. | Cyllid allanol a weinyddir gan y Cyngor | 13 |
| **14.** | Adroddiadau Ariannol | 13 |
| **15**. | Tanwariant a gorwariant | 13 |
| **16**. | Ymyrraeth pan fo sefydliad a ariennir yn cael anawsterau | 13-14 |
| **17**. | Gweithredu'r cod | 14 |
| **18**. | Adolygu'r cod | 14 |
| **19**. | Torri'r cod | 14 |


**Atodiadau:**


| | | |
|---|---|---|
| **1** | Swyddfa Archwilio Cymru, argymhellion ar gyfer rheoli grantiau'n well yng Nghymru | 15 |
| **2** | Meini prawf enghreifftiol ar gyfer sgorio ceisiadau grant | 16-17 |
| **3** | Fframwaith monitro a gwerthuso | 18 |
| **4** | Gweithdrefnau ar gyfer grantiau i'r cyngor | ? |
| **5** | Gweithdrefnau ar gyfer cwblhau hawliadau grant | ? |
| | Llyfryddiaeth | 19 |

1. **Cyflwyniad**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn gwerthfawrogi rôl y Trydydd Sector o ran cefnogi'r Cyngor a chyflenwi prosiectau a gwasanaethau er budd Ynys Môn.

Mae'r côd hwn yn berthnasol i'r mudiadau trydydd sector hynny (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) y mae Cyngor Sir Ynys Môn (y 'Cyngor') yn comisiynu gwasanaeth ganddynt, neu y mae'n darparu cyllid iddynt drwy grant. Yn ogystal, mae'r côd hwn yn berthnasol ar draws y Cyngor a dylid ei ddilyn gan bob gwasanaeth a swyddog wrth gomisiynu a chyllido darpariaeth gyda'r trydydd sector.

Bydd grŵp o Bencampwyr Trydydd Sector sy'n cynrychioli adrannau a swyddogaethau ar draws y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o ledaenu'r cod hwn ac yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi nodau'r côd.

2. **Nodau**

Nod y côd ymarfer hwn yw:-

- Adeiladu ar y berthynas gadarnhaol sy'n bodoli rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector drwy drefniadau cyllido teg a thryloyw ar gyfer y trydydd sector a weithredir yn gyson;
- Ymgorffori egwyddorion a gofynion Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector (Ionawr 2014) Llywodraeth Cymru.

Mae'r côd yn ategu Compact Ynys Môn, sef y Cytundeb Partneriaeth strategol rhwng y Trydydd Sector ar Ynys Môn a'r Cyngor.

3. **Beth yw Mudiad Trydydd Sector?**

Yn A16 (2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y 'Ddeddf') diffinnir mudiad Trydydd Sector fel "sefydliad y gallai person farnu'n rhesymol ei fod yn sefydliad sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion i'r gymdeithas". Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn diffinio menter gymdeithasol yn A16 (2) o'r Ddeddf fel "...sefydliad y mae ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn rhai y gallai person farnu'n rhesymol eu bod yn weithgareddau a gyflawnir er budd y gymdeithas (ei amcanion cymdeithasol), ac sydd (a) yn creu'r ei incwm drwy fusnes neu fasnach, (b) yn ail-fuddsoddi'r rhan fwyaf o'i elw yn ei amcanion cymdeithasol, (c) yn annibynnol ar unrhyw awdurdod cyhoeddus, a (ch) yn cael ei berchenogi, ei lywio a'i reoli mewn ffordd sy'n gyson â'i amcanion cymdeithasol."

Mae'r côd hwn yn defnyddio'r term Trydydd Sector i gynnwys mentrau cymdeithasol.

4. **Egwyddorion sylfaenol**

Mae Côd Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o egwyddorion cyffredinol. Mae'r egwyddorion hyn, sydd wedi'u crynhoi isod, yn ffurfio sail bwysig ar gyfer Cod Ymarfer Ynys Môn.

- Rhaid i'r trefniant ariannu fynd ar drywydd cyflawni amcanion polisi strategol y Cyngor a Llywodraeth Cymru fel sy'n berthnasol i'r ffrwd cyllido;
- Mae'r Cyngor yn parchu ac yn gwerthfawrogi annibyniaeth y Sector;
- Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd deialog cynnar ac adeiladol â'r Trydydd Sector a bydd yn ceisio bod yn dryloyw ac yn wrthrychol wrth fynd ati i weithio â'r Trydydd Sector;
- Bydd y Cyngor yn ceisio gwneud penderfyniadau amserol am drefniadau cyllido a chomisiynu yn unol â chôd ymarfer Llywodraeth Cymru a'r rheoliadau Caffael Cyhoeddus fel y bo'n briodol. Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i fudiadau Trydydd Sector am benderfyniadau am ddyfodol cyllid o leiaf dri mis cyn bod unrhyw gytundeb cyllido presennol yn dod i ben;
- Sicrwydd cyllid – mae Llywodraeth Cymru o blaid trefniadau cyllido mwy hirdymor ble bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol. Mae'r Cyngor yn cydnabod manteision trefniadau cyllido mwy hirdymor a bydd yn gweithredu trefniadau cyllido mwy hirdymor lle y gall wneud hynny ac yn amodol ar adnoddau cyllid digonol;
- Lefelau cyllid teg - darperir cynnydd yn ôl chwyddiant i drefniadau cyllido Trydydd Sector lle bo hynny'n fforddiadwy. Fodd bynnag, ar adegau o bwysau ariannol, mae'r Cyngor yn ystyried ei bod yn rhesymol i ddisgwyl y bydd cyfyngiadau'n berthnasol hefyd yn achos y Trydydd Sector. I helpu i sicrhau tegwch, nod y Cyngor fydd bod mor gyson â phosibl o ran ei ymagwedd at arbedion chwyddiant/effeithlonrwydd â'r rheiny a weithredir yn fewnol. Ystyrir anghenion penodol sectorau arbenigol hefyd cyn belled ag y bo modd;
- Gwerth am Arian - disgwylir i fudiadau Trydydd Sector sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae ystyriaethau o ran gwerth am arian yn berthnasol hefyd yng nghyswllt dyrannu grantiau a chaffael;
- Adennill costau llawn - bydd cyllid Trydydd Sector ar gyfer prosiect penodol neu wasanaeth yn darparu ar gyfer cost lawn eu rhedeg, gan gynnwys cyfran o'r gorbenion, yn amodol ar yr adnoddau cyllid sydd ar gael. Nid yw hyn yn cynnwys lle mae'r Cyngor yn rhoi grant neu gyfraniad i fudiad Trydydd Sector tuag at eu costau craidd;
- Egwyddorion comisiynu – disgwylir i gyrff cyhoeddus weithredu yn ôl arfer orau o ran egwyddorion comisiynu a disgwylir i fudiadau Trydydd Sector ymgysylltu'n llawn â'r prosesau comisiynu;
- Taliadau - bydd taliadau'n cael eu gwneud gan y Cyngor ar ffurf ôl-daliadau. Dylai anfonebau gynnwys digon o fanylion i egluro pwrpas yr anfoneb a dylid atodi gwybodaeth fonitro fel y bo'n briodol i'r cytundeb ariannu. Mewn achosion eithriadol, bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am daliadau ymlaen llaw yn ysgrifenedig, lle bo tystiolaeth gref o'r angen. Ni wneir taliadau ymlaen llaw dim ond mewn achosion eithriadol;
- Triniaeth deg a rhesymol - nod y Cyngor fydd gweithredu argymhelliad Llywodraeth Cymru cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl, fel arfer da, y dylid darparu cyfnod ymgynghori o ddeuddeng wythnos ynghyd â chyfnod rhybudd o ddeuddeng wythnos cyn gwneud unrhyw newidiadau i bolisi neu benderfyniadau a fyddai'n arwain at dynnu grantiau'n ôl neu eu lleihau'n sylweddol;
- Agwedd gydweithredol at fonitro, gwerthuso ac archwilio – bydd y Cyngor a mudiadau Trydydd Sector yn ymgysylltu'n llawn â gweithdrefnau monitro, gwerthuso ac archwilio;
- Canfod arbenigedd a datblygu gallu i gyflawni – mae Llywodraeth Cymru, fel y mae CSYM, yn cydnabod bod ystod eang o wybodaeth a sgiliau i'w cael yn y Trydydd Sector. Mae'r Trydydd sector yn gallu, ac yn, gwneud cyfraniad pwysig tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r Cyngor a gwella bywydau pobl Cymru a chymunedau Ynys Môn. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen cymorth ar fudiadau Trydydd Sector i sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn a bod arferion da'n cael eu rhannu'n eang. Mae natur amrywiol a'r sgiliau a gynigir gan tua 700 o fudiadau Trydydd Sector sy'n gweithredu ym Môn yn cael eu cydnabod gan y Cyngor, a gall y Trydydd Sector chwarae rôl allweddol mewn trawsnewid gwasanaethau'r Cyngor;

- Amrywiaeth – mae'r Cyngor yn cydnabod anghenion amrywiol pobl a chymunedau a'r amrywiaeth o wasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'r côd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg ac y dylai bod cyfleoedd cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaeth gael defnyddio'r Gymraeg a Saesneg yng ngwasanaethau'r Trydydd Sector. Bydd angen i'r Cyngor a mudiadau Trydydd Sector sy'n cyflenwi gwasanaethau ar ran y Cyngor gydymffurfio â'r safonau a fynnir gan ran 4 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- Arloesi – mae'r côd ymarfer o blaid gweithio mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector a phartneriaid arall i ganfod arferion arloesol i wella'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu ar Ynys Môn, yn enwedig fel rhan o agenda Trawsnewid Ynys Môn;
- Llywodraethu da a diwydrwydd dyladwy – mae'r egwyddor hon yn pwysleisio'r angen am lywodraethu da a diwydrwydd dyladwy gan y Cyngor a mudiadau Trydydd Sector fel ei gilydd;
- Monitro'r côd ymarfer ar gyfer cyllido trydydd sector – mae'r egwyddor olaf yn ymwneud â chydymffurfio â'r côd ymarfer hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi prosesau monitro cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth â'r côd. Mae'r fersiwn hon o'r côd, ar gyfer Ynys Môn, yn darparu arweiniad gweithdrefnol a fydd yn cynorthwyo i gydymffurfio â chôd Llywodraeth Cymru.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2014, Côd Ymarfer ar gyfer cyllido'r Trydydd Sector,t25-34*

## 5. Cwmpas

Mae mudiadau Trydydd Sector yn amrywio o ran eu ffurf gyfreithiol, eu maint a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Gallant fod yn gymdeithasau cymunedol; grwpiau hunangymorth; mudiadau gwirfoddol; elusennau; mudiadau ffydd; mentrau cymdeithasol; busnesau cymunedol; cymdeithasau tai; ymddiriedolaethau datblygu; mudiadau cydweithredol a chydfuddiannol. (Llywodraeth Cymru, 2014, t.23)

Mae'r Côd Ymarfer hwn yn ymwneud, yn bennaf, â chyllid a dderbynnir gan y Trydydd Sector oddi wrth y Cyngor, bo hynny yn ffurf grant neu wasanaeth sydd wedi'i gomisiynu.

Lle gweinyddir cyllid gan y Cyngor ar ran corff cyllido, er enghraifft:-

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Cyllid Partneriaeth

dilynir y meini prawf a nodir gan y corff cyllido a fydd yn drech nag unrhyw un o ddarpariaethau'r cod hwn.

Mae'r cod hwn hefyd yn cydnabod bod llawer o drefniadau partneriaeth yn bodoli rhwng y Trydydd Sector a'r Cyngor lle nad oes dyfarniad ariannol:-

- Taliadau 'mewn ffyrdd eraill' (e.e. mynediad i lety);
- Mynediad i hyfforddiant;
- Grwpiau amlasiantaeth sy'n hyrwyddo menter benodol.

## 6. Mecanweithiau Ariannu

Y ddau brif fecanwaith ariannu rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector yw drwy:-

Grant i'r mudiad Trydydd Sector neu wasanaeth a gomisiynir (trefniadau contractiol) gan y mudiad Trydydd Sector.

### 6.1 Grant neu Gaffael

Nodir isod y gweithdrefnau ar gyfer darparu grantiau i fudiadau Trydydd Sector ynghyd â threfniadau comisiynu/contractiol gyda'r Trydydd Sector. Ceir dryswch weithiau o ran p'un ai i ddarparu grant i'r mudiad Trydydd Sector neu gaffael y gwasanaeth ganddynt. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu'r arweiniad a ganlyn:-

**Grant neu gaffael**

Un elfen allweddol wrth benderfynu a ddylid defnyddio arian grant neu drefniadau caffael yw pa mor agos yw'r hyn sy'n cael ei bwrcasu at anghenion busnes neu bolisi'r Llywodraeth (neu'r awdurdod lleol yn yr achos hwn). Yn gyffredinol, dylid defnyddio arian grant pan fydd y Llywodraeth (awdurdod lleol) am roi help ariannol i gyrff allanol ymgymryd â gweithgareddau i helpu i gyflawni ei hamcanion polisi a'i blaenoriaethau. Dylid defnyddio prosesau caffael pan fydd y Llywodraeth (awdurdod lleol) yn diffinio'n benodol y nwyddau a/neu'r gwasanaethau sydd eu hangen arni ar gyfer ei budd neu ei defnydd uniongyrchol.

- Os nad oes gan yr awdurdod y pŵer cyfreithiol i wneud y gwaith ei hun, nid yw'n debygol y byddai ganddo'r awdurdod i'w cael o dan drefniadau contract. Yn lle hynny, gellid darparu grant;
- Os mai'r bwriad yw sicrhau gwasanaeth uniongyrchol i'r Llywodraeth (awdurdod lleol), un ai i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau neu i hyrwyddo ei swyddogaethau neu ei hamcanion polisi'n uniongyrchol, yna caffael yw'r dull tebygol;
- Os yw'r cyngor yn bwriadu ariannu'r holl ofynion y mae'r cyllid yn cael ei dalu ar eu cyfer, mae'n debygol mai caffael fyddai'r dull gorau i gyflawni gwerth am arian i'r awdurdod. Yn aml, bydd arian grant yn talu dim ond rhan o gost prosiect neu weithgaredd gydag arian yn dod o ffynonellau eraill hefyd. Mae hyn yn golygu y bydd gan gyllidwyr eraill hefyd lais yn y penderfyniad ar gyfeiriad a chanlyniadau'r gwaith;
- Yn ogystal, mae'r lefel o reolaeth a ddymunir yn helpu i benderfynu p'un ai grant neu drefniant wedi'i gomisiynu yw'r dull gorau. Po fwyaf rhagnodol y mae'r cyngor yn dymuno bod o ran pennu'r gwasanaeth sy'n ofynnol neu'r canlyniadau y dylid eu sicrhau, y mwyaf tebygol ydyw mai caffael yw'r trywydd y dylid ei ddilyn.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2014, Côd Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector, t38-39 (diwygiwyd)*

## 6.2 Cyllid grant i'r Trydydd Sector

Darperir grantiau gan y Cyngor i fudiadau Trydydd Sector fel modd o gefnogi mudiad i wneud gweithgareddau sy'n gyson â blaenoriaethau'r Cyngor. Gall hyn fod yn grant tuag at gostau craidd rhedeg a datblygu mudiad neu i gefnogi prosiectau penodol neu wasanaethau.

### 6.2.1 Cyllid Craidd

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi, yn gyffredinol, bod cyllid craidd yn cael ei roi i ariannu mudiad Trydydd Sector i ymgymryd â gweithgareddau y mae'r mudiad Trydydd Sector yn eu dewis, o fewn paramedrau cyffredinol y cytunwyd arnynt â'r Cyngor. Defnyddir cyllid craidd os yw lefel yr ymddiriedaeth rhwng y corff cyhoeddus a'r mudiad Trydydd Sector yn uchel, Llywodraeth Cymru, 2014, t. 37. Mae gan drefniant cyllid craidd y nodweddion a ganlyn:-

- Mae'r berthynas reoli rhwng y mudiad Trydydd Sector a'r Cyngor yn un hyd braich yn fwriadol;
- Bydd y Cyngor yn adolygu ac yn cadarnhau ei flaenoriaethau unwaith y flwyddyn;
- Nid yw'r trefniadau monitro a gwerthuso yn rhy lawdrwm;
- Dylai trefniadau atebolrwydd bwysleisio atebolrwydd yr ymddiriedolwyr neu unigolion cyfatebol;
- Mae cyllid craidd yn caniatáu'r mudiad Trydydd Sector i gyflawni ei weithgareddau allweddol fel y'u diffiniwyd yn ei ddogfen lywodraethu;
- Bydd cyllid craidd, gan amlaf, yn cael ei roi am gyfnod penodol (hyd at 3 blynedd yn unig fel arfer).

### 6.2.2 Cyllid Prosiect

Fel arfer, dyfernir grant tuag at brosiect, ac fe'i telir yn y diwedd, i gyflawni canlyniadau o ganlyniad i brosiect unigol. Gellir defnyddio cyllid prosiect tuag at gostau refeniw, er enghraifft, cyflogau a chostau rhedeg o ddydd i ddydd, a/neu gostau cyfalaf fel y costau sy'n gysylltiedig â datblygu neu brynu asedau sefydlog megis adeiladau, fel y nodir yn nhelerau ac amodau'r grant. Mae nodweddion yn cynnwys:-

- Mae cyllid prosiect yn tueddu i fod am amser cyfyngedig yn unig;
- Lle bo'r prosiect am dymor byr iawn, er enghraifft, llai na 3 mis, a'i fod y tu allan i gylch blwyddyn ariannol, mae'r angen am gyfnod o dri mis o rybudd cyn dechrau'r prosiect yn cael ei lacio gan efallai na fydd hyn yn realistig nac yn ddymunol;
- Darperir cyllid prosiect ar gyfer canlyniadau penodol.

### 6.2.3 Gweithdrefnau i'w dilyn wrth ddosbarthu grant

**(i)** Sicrhewch y ceisir y gymeradwyaeth iawn a bod awdurdod i gynnig y cyllid grant o'r cychwyn cyntaf.

**(ii)** Nodwch argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a gynhwysir yn Atodiad 1 a gweithredwch argymhellion fel y bo'n briodol.

**(iii)** Rhaid i unrhyw gronfeydd cyllid o £10,000 neu fwy sydd i'w dyfarnu fel grantiau gael eu hysbysebu i roi cyfle i bob mudiad perthnasol wneud cais am grant. Mae'r ymagwedd hon nid yn unig yn fwy gwrthrychol a theg ond bydd yn helpu i ganfod a chefnogi'r mudiadau sy'n cyfrannu fwyaf at flaenoriaethau'r Cyngor.

**(iv)** Rhaid bod yn wrthrychol wrth fynd ati i ddyfarnu grantiau. Dylid llunio matrics gwerthuso i helpu i sgorio'r ceisiadau grant ac i ganfod sut y byddent yn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer bob ymarfer dyfarnu grant. Gweler atodiad 2 am enghraifft.

**(v)** Dylid cynnull panel i sgorio'r ceisiadau yn fuan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau. Dylid cael swyddogion ar y panel hwn a allai gynnig gwrthrychedd. Yn ddelfrydol, gallai ymagwedd amlasiantaethol gynnal gwrthrychedd, yn enwedig lle bo'r grantiau a gynigir yn sylweddol. Gellid gwahodd swyddog o Medrwn Môn i gymryd rhan yn y panel sgorio gan eu bod yn cefnogi'r Trydydd Sector yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, pe bai Medrwn Môn yn cyflwyno cais i'r Cyngor fel rhan o'r broses ymgeisio arbennig honno, ni allant gymryd rhan yn y panel dethol. Gellid gwahodd cynrychiolwyr eraill o fudiadau Trydydd Sector unigol. Fodd bynnag, dylai'r cynrychiolydd fod yn ddiduedd a heb unrhyw ran yn y broses ymgeisio neu gysylltiad â hi. Yn ddelfrydol, a lle y bo'n berthnasol, dylid gwahodd defnyddiwr neu ddefnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan yn y panel, fodd bynnag, dylai'r defnyddiwr gwasanaeth fod heb unrhyw gysylltiadau ag unrhyw un o'r mudiadau sy'n cyflwyno ceisiadau. Rhaid cadw cofnod clir o sgôr bob mudiad sy'n gwneud cais gyda chofnod clir o'r rheswm am ddewis y mudiadau sydd wedi'u dethol (fel arfer, y rhai â'r sgoriau uchaf yn seiliedig ar gymhareb sgorio ansawdd/pris).

**(vi)** Ysgrifennwch at yr ymgeiswyr llwyddiannus am grant yn nodi'r grant a gynigir, ynghyd â manylion am bryd y bydd y grant yn cael ei dalu a'r targedau sydd i'w cyflawni. Rhaid i'r llythyr gynnwys cyfnod y grant, rhestr o'r blaenoriaethau corfforaethol allweddol y bydd y grant yn cyfrannu tuag atynt a'r wybodaeth fonitro a fydd yn briodol i'r swm grant a gynigir (gweler adran fonitro 12). **Rhaid i'r llythyr grant gynnwys y frawddeg a ganlyn "mae'r grant hwn yn cael ei ddarparu a'i weinyddu yn unol â Chôd ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector Llywodraeth Cymru"** (2014, t34). Dylai llythyr y cynnig gynnwys yr angen i hysbysu'r Cyngor mor fuan â phosibl os nad oes angen y grant mwyach neu os rhagwelir tanwariant. Gellir ailddyrannu'r grant wedyn a gellid cynghori'r mudiad Trydydd Sector i ymgeisio am gyllid grant yn y dyfodol os oes angen. Dylid anfon ffurflen derbyn grant gyda llythyr y cynnig, sy'n gofyn am lofnodwyr awdurdodedig o'r mudiad Trydydd Sector sy'n derbyn y cynnig grant. Rhaid i'r mudiad ddychwelyd y ffurflen dderbyn hon o fewn pythefnos o dderbyn llythyr cynnig y grant. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n darparu'r arweiniad a ganlyn mewn perthynas â chynigion grant:-

- Defnyddio Cyllid - mae'n bwysig i'r Cyngor a'r corff a gyllidir fod yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain o ran y defnydd o gyllid grant;
- Rhagamodau cyllido - yr amodau y mae'n rhaid i gorff a gyllidir eu bodloni cyn y bydd cyllid yn cael ei ryddhau;
- Sut i hawlio'r Cyllid - mae hon yn adran bwysig sy'n nodi pryd y gwneir taliadau a beth y dylai cyrff a gyllidir ei wneud i foddhau Swyddogion Grant bod cyllid wedi cael (neu mewn rhai achosion, yn mynd i gael) ei ddefnyddio'n gyfrifol ac ar gyfer y dibenion a fwriedir yn unig;
- Rhwymedigaethau cyffredinol - yn cyfeirio at y meysydd y mae rhaid i gyrff a gyllidir gweithredu camau ar eu cyfer i atal twyll, sicrhau cydymffurfiaeth â phob cyfraith a rheoliadau perthnasol, rheoli risg, ac yn gyffredinol, cydweithredu â swyddogion y Cyngor/ Llywodraeth Cymru sy'n ceisio sicrwydd o ran y defnydd priodol o gyllid grant;
- Datganiadau - cytundeb ffurfiol y corff a gyllidir y bydd yn cydymffurfio â'r holl delerau ac amodau cyllido a nodir yn y llythyr dyfarnu;
- Digwyddiadau Hysbysu a'u canlyniadau - rhaid i gyrff a gyllidir cydymffurfio â darpariaethau'r adran hon lle ceir un neu ragor o ddigwyddiadau penodol (e.e. mae grant wedi'i ordalu neu mae corff a gyllidir wedi methu â chydymffurfio ag amodau cyllido - cynhwysir rhestr lawn mewn atodlen i'r llythyr). Mae'r adran hefyd yn pennu'r hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud mewn ymateb i hysbysiad o'r fath;
- Gofynion archwilio - fel derbynyddion arian cyhoeddus, mae'n iawn ac yn briodol i gyrff a gyllidir rhoi cyfrif am arian o'r fath a dangos eu bod yn ei ddefnyddio mewn modd priodol a chyfrifol. Lle gofynnir am hynny, rhaid iddynt roi mynediad i'r Cyngor, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd (neu eu cynrychiolwyr) i archwilio unrhyw weithgareddau a gyllidir a dogfennaeth gysylltiedig. Dylai cofnod clir o bob gwariant mewn perthynas â'r grant gael ei gofnodi yn system ariannol y mudiad gan gynnwys tystiolaeth o'r holl drafodion fel derbyniadau, anfonebau, datganiadau banc ac ati.

**(vii)** Ysgrifennwch at ymgeiswyr aflwyddiannus ac argymell bod y mudiad Trydydd Sector yn cysylltu â Medrwn Môn am gyngor a chefnogaeth. Cynnig adborth ar gais.

**(viii)** Gofynnwch am ffurflen dderbyn grant os na dderbyniwyd un. Gallai llythyr y cynnig nodi y caiff y grant ei ddirymu os nad yw'r ffurflen dderbyn yn cael ei harwyddo a'i dychwelyd.

**(ix)** Cofnodwch y grant yn Civica fel ymrwymiad yn erbyn y ganolfan gost berthnasol, fel côd manylion yr ymrwymiad (neu, yn y diwedd, y taliad) rhowch y côd D0808 – grantiau a chyfraniadau i fudiadau Trydydd Sector:-

- Cofnodwch archeb yn Civica a fydd, ar ôl ei chymeradwyo, yn archeb swyddogol – yn achos mwy nag un taliad, sefydlwch hon yn ôl math yr archeb e.e. os telir y grant fesul pedwar taliad chwarterol, sefydlwch yr archeb ar gyfer 4 eitem;

- Wrth greu'r archeb, dewiswch y cynhyrchion a ganlyn o oddi mewn i Civica, fel y bo'n briodol:-

  - Grantiau i fudiadau Trydydd Sector (chwarterol);
  - Grantiau i fudiadau Trydydd Sector (chwe-misol);
  - Grantiau i fudiadau Trydydd Sector (un taliad blynyddol);
  - Grantiau i fudiadau Trydydd Sector (misol);
  - Rhaid creu credydwyr Trydydd Sector newydd o dan gategori A16;
  - Bob tro y telir rhandaliad, sicrhewch fod y taliad yn cael ei gyfateb yn erbyn y cyfnod perthnasol yn yr archeb a bod y rhandaliad yn cael ei gofnodi yn Civica fel nwyddau wedi'u derbynebu, fel bod yr ymrwymiad yn cael ei leihau'n unol â hynny.

**(x)** Crëwch ffeil (neu adran o fewn ffeil) (electronig a/neu bapur) i bob prosiect a ariennir gan grant, i storio'r holl ohebiaeth a gwaith papur sy'n ymwneud â'r prosiect hwnnw a ariennir gan grant. Yn ôl y gyfraith, mae angen cadw dogfennau ariannol am chwe blynedd ynghyd â'r flwyddyn gyfredol.

**(xi)** Monitrwch y trefniant cyllid grant fel y bo'n briodol i'r swm a ddarparwyd. Cyfeiriwch at yr adran ar fonitro. Rhaid adfachu cyllid os na chydymffurfiwyd â'r telerau/targedau. Gellid ailddyrannu hwn i brosiect arall a allai gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

**(xii)** Rhowch amcan o swm y grant, os o gwbl, ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, erbyn diwedd Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol newydd. Ni ellir cadarnhau'r dyfarniad terfynol hyd nes y mae cyllideb y Cyngor wedi'i chadarnhau ym mis Chwefror cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Lle bo'r grant yn grant parhaus, rhaid i fudiad gael rhybudd o dri mis o unrhyw newidiadau neu os bydd y grant yn dod i ben. Gall hyn olygu bod y grant yn parhau i mewn i fis Mai/Mehefin.

## 6.3 Contractau/caffael

O ran yr holl drefniadau prynu gyda'r Trydydd Sector, p'un ai ar gyfer darparu gwaith, cyflenwadau, nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau, dylid eu cwblhau yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor (http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/constitution/constitution-part-4-rules-of-procedure/constitution-49-contract-procedure-rules/ Pwyswch Ctrl a chliciwch fotwm chwith eich llygoden i fynd i'r gweithdrefnau. Bydd rheolau gweithdrefn contractau newydd yn dod i rym o Fedi 2015. I gael arweiniad manwl, cyfeiriwch at y Llawlyfr Caffael sydd ar gael ar y fewnrwyd neu cysylltwch â caffael@ynysmon.gov.uk.

### 6.3.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'n RHAID i'r holl weithdrefnau caffael:-

- Sicrhau gwerth am arian drwy gyflawni'r cyfuniad gorau bosibl (ansawdd/pris);
- Bod yn gyson â'r safonau uchaf o ran uniondeb;
- Gweithredu'n dryloyw;
- Sicrhau tegwch wrth ddyrannu contractau cyhoeddus;
- Cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, gan gynnwys egwyddorion Cytuniad yr UE;
- Sicrhau nad yw ystyriaethau anfasnachol yn dylanwadu ar unrhyw drefniadau contractio;
- Cefnogi holl flaenoriaethau a pholisïau perthnasol y Cyngor;
- Cydymffurfio â gofynion o ran cyfrinachedd masnachol yn ogystal â gofynion statudol perthnasol, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data.

Ym mhob achos lle mae contract corfforaethol yn bodoli ar gyfer gofyniad, rhaid defnyddio'r contract corfforaethol. I wirio p'un a oes cytundeb corfforaethol mewn bodolaeth, cysylltwch â'r tîm caffael ar caffael@ynysmon.gov.uk

O fis Medi 2015, bydd y terfynau fel a ganlyn:-

| Terfynau Ariannol | Gweithredu | Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|
| £1 i £9,999 – **GWEITHDREFN UN DYFYNBRIS AR GYFER MÂN GONTRACTAU** | Os nad oes contract corfforaethol ar gyfer y nwyddau/gwasanaeth, dylai'r swyddog cyfrifol gael o leiaf un dyfynbris o restr gymeradwy o gyflenwyr, lle bo un yn bodoli, neu restr gyffredinol o gyflenwyr cofrestredig. Fodd bynnag, os ceisir mwy nag un dyfynbris, mae gwell cyfle i gyflawni gwerth am arian. | • Rhaid asesu p'un a yw'r mudiad Trydydd Sector yn gymwys ar gyfer y diben bwriadedig;<br>• Rhaid cynnal trywydd archwilio i ddangos y prosesau a'r cyfiawnhad gwrthrychol ar gyfer dethol y mudiad Trydydd Sector. |
| £10,000 i £24,999 – **GWEITHDREFN DDYFYNBRISIAU AR GYFER CONTRACTAU BACH** | Rhaid i'r swyddog cyfrifol wahodd o leiaf tri dyfynbris o restr gymeradwy o gontractwyr, lle bo rhestr yn bodoli. <u>Gellid</u> hysbysebu'r cyfleoedd contractio hyn ar www.gwerthwch <http://www.gwerthwch> i gymru.gov.uk <http://www.gwerthwchigymru.gov.uk> i ganfod darparwyr sydd â diddordeb. | • Bydd pawb a wahoddir i roi dyfynbris yn cael mynediad i'r un wybodaeth;<br>• Dylai bod gan bob cwmni a wahoddir i roi dyfynbris yr un dyddiad cau a bydd y dyfynbrisiau'n cael eu gwerthuso gyda'i gilydd ar ôl y dyddiad cau;<br>• Rhaid cynnal trywydd archwilio sy'n dangos pa ddyfynbrisiau a wahoddwyd, sut y cawsant eu hasesu ynghyd â chanlyniad yr ymarfer. |
| £25,000 hyd at Drothwy'r UE (gwiriwch hyn gyda'r tîm caffael gan fod Trothwy'r UE yn cael ei adolygu'n gyson) – **GWEITHDREFN DENDRO AR GYFER CONTRACTAU MAWR** | Mae'n <u>rhaid</u> i chi hysbysebu ar www.sell2wales.gov.uk i wahodd datganiadau o ddiddordeb (neu unrhyw wefan o'r fath y bydd y Cyngor yn ei defnyddio er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau prynu);<br>• Gellir ategu hyn gan hysbysiad(au) mewn cylchgronau masnachol yn ôl disgresiwn y gwasanaeth. | • Cyfeiriwch at weithdrefn 4.9.7 o fewn y weithdrefn gontractau. |

### 6.3.2 Eithriadau i'r rheolau uchod:-

Ac eithrio lle bo Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn berthnasol (cysylltwch â'r tîm caffael am gyngor), mae gan y Pwyllgor Gwaith y pŵer i hepgor neu amrywio gofynion y rheolau.

Yn ogystal, gellir hepgor neu amrywio'r rheolau lle mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro neu'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, neu eu dirprwyon priodol yn tystio i'r amgylchiadau yn yr amgylchiadau a ganlyn:-

- Rheol 4.9.3.2.1 ar gyfer gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau sydd â phatent neu a chanddynt nodweddion mor arbennig nad yw'n bwysig cael prisiau cystadleuol;
- Rheol 4.9.3.2.2 ar gyfer cyflenwadau a brynir neu a werthir mewn marchnad gyhoeddus neu arwerthiant;
- Rheol 4.9.3.2.3 ar gyfer gwaith, gwasanaethau neu brynu cyflenwadau sy'n cynnwys gwybodaeth neu sgiliau arbenigol neu unigryw;
- Rheol 4.9.3.2.4 lle bo sefydliad wedi ennill cytundeb ar gyfer cyfnod cynharach o'r gwaith drwy'r broses gystadleuol a lle mae'r gwaith yn ffurfio rhan o raglen gyfresol a'i fod wedi'i nodi felly'n flaenorol;
- Rheol 4.9.3.2.5 ar gyfer gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau nad ydynt ond ar gael gan un sefydliad;
- Rheol 4.9.3.2.6 lle bo'r fath frys nad yw'n bosibl cydymffurfio â'r Rheolau;
- Rheol 4.9.3.2.7 ar gyfer enghreifftiau arbenigol o gelf neu rai mewn amgueddfa i gyflawni gofynion digwyddiad celfyddydol neu ddiwylliannol;
- Rheol 4.9.3.2.8 mewn perthynas â chyllid grant ag iddo gyfyngiad amser gan gorff allanol lle nad yw'r cyfyngiad amser yn caniatáu cwblhau proses gystadleuol a lle bo'r amodau grant yn caniatáu hyn;
- Rheol 4.9.3.2.9 ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 neu Ddeddf Plant 1989, lle, yn achos gosod y contract ar dendr, mae tendrau'n cael eu gwahodd neu eu trafod yn unol â rheol 4.9.4.

**Rhaid i bob contract gynnwys y frawddeg a ganlyn- "mae'r cytundeb hwn wedi'i gaffael a'i weinyddu'n unol â Chôd Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector Llywodraeth Cymru"** (2014, T34).

## 7. Cyllid Grant i'r Awdurdod

Lle bo grant Trydydd Sector neu wasanaeth sydd dan gontract yn cael ei ariannu gan grant i'r Cyngor, dylid dilyn protocol grantiau'r Awdurdod (2015) ym mhob achos. Yn ogystal, ceir cyfarwyddiadau hawlio grant (2015) y mae'n rhaid eu dilyn mewn perthynas â hawliadau grant. Yn achos gwahaniaethau, bydd telerau ac amodau grant y corff ariannu penodol yn drech na'r côd hwn. Cysylltwch â'r tîm grantiau Corfforaethol am gyngor:- JennyWhiston@anglesey.gov.uk, 01248 752616.

## 8. Taliadau i Fudiadau Trydydd Sector

- Dylid gwneud taliadau ar ffurf ôl-daliadau; ac ni ddylid eu talu ymlaen llaw dim ond mewn achosion prin neu eithriadol (gyda chymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth a'r Swyddog Adran 151). Achos eithriadol fyddai lle bo swm bach o gyllid yn cael ei ddarparu i fudiad bach na fyddai'n gallu ariannu gwariant cyn cael taliad gan yr Awdurdod;
- Unwaith y mae taliad yn cael ei wneud, dylid cyfateb hwn yn erbyn yr archeb yn Civica a derbynebu'r nwyddau, fel nad yw mwyach yn dangos fel ymrwymiad;

- O ran bob mudiad Trydydd Sector newydd, at ddibenion monitro, dylid ei amlygu o fewn credydwyr fel Trydydd Sector o dan ddosbarthiad A16;
- Bydd dyfarniadau cyllid grant sy'n llai na £2,000 yn cael eu gwneud mewn un taliad;
- Mae'n rhaid talu anfonebau o'r Trydydd Sector o fewn telerau masnach;
- Gwneir taliadau'n unol â thelerau grant neu gontract fel y bo'n berthnasol, a dylid eu gwneud ar sail gwybodaeth sy'n ddigonol i benderfynu a yw'r mudiad wedi cydymffurfio â thelerau'r grant neu'r contract. Er enghraifft, manylion trafodion a thystiolaeth o'r trafodion hyn, cwblhau'r wybodaeth fonitro a fynnir, ac ati.

## 9. Rhoi gwybod am gyfleoedd ariannu

Bydd hysbysiadau am gyfleoedd ariannu allanol ar gael fel y maent yn codi e.e. drwy Medrwn Môn, y wasg a GwerthwchiGymru, a rhwydweithiau neu systemau eraill fel y bo'n briodol e.e. y wasg leol.

Lle bo'r Cyngor yn bwriadu gwneud trefniant contractiol ar gyfer darparu nwyddau neu wasanaethau, bydd yn dilyn y weithdrefn gaffael a nodir yn ei Reolau Gweithdrefn Contractau ar gyfer gwahodd tendrau neu ddyfynbrisiau fel y bo'n briodol. Gall cyrff Trydydd Sector ymateb i wahoddiadau o'r fath, a gellir dyfarnu contractau iddynt os yn llwyddiannus. Mae'r côd hwn yn ategu'r rheolau gweithdrefn contractau.

## 10. Mathau o gyllid

### 10.1 Cyllid refeniw

Mae'r math hwn o gyllid yn cefnogi cyflenwi gwasanaethau ac yn cynnwys gwariant dydd i ddydd ar gostau tymor byr fel cyflogau, gwresogi, rhenti, cyflenwadau a gwasanaethau, incwm.

### 10.2 Cyllid cyfalaf

Mae'r math hwn o gyllid yn cefnogi prynu asedau h.y. asedau a ddefnyddir o fewn y busnes am fwy na blwyddyn, er enghraifft, eiddo, offer.

### 10.3 Cyllid refeniw a chyfalaf

Mae'r math hwn o gyllid yn cefnogi cyflenwi gwasanaethau a phrynu asedau.

## 11. Amseriad rhoi gwybod am gyllid

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod penderfyniadau cyllido mewn perthynas â Chyllideb y Cyngor yn gyffredinol yn cael eu gwneud, fel arfer, ychydig cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y maent yn berthnasol iddi. Gall hyn gael effaith negyddol ar ddarpariaeth gwasanaeth Trydydd Sector, ynghyd â recriwtio a chadw staff. Ar gyfer y cytundebau hynny sy'n rhychwantu neu sy'n mynd drosodd i mewn i flynyddoedd ariannol olynol, dylai dyraniadau cyllid dangosol fod ar gael ym mis Rhagfyr. Mae'r Trydydd Sector yn derbyn nad yw'r cyllid hwn wedi'i warantu ac na ddylid ymgymryd ag unrhyw waith hyd nes y derbyniwyd hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer y cyllid.

Mae'r côd hwn yn cadarnhau y bydd mudiadau Trydydd Sector yn cael o leiaf 3 mis o rybudd o'r hysbysiad terfynol, e.e. Mehefin i 31 Mai, oni chytunwyd fel arall gan y ddau barti.

## 12. Monitro a gwerthuso perfformiad

Mae monitro a gwerthuso perfformiad yn hanfodol i sicrhau'r defnydd priodol o gyllid cyhoeddus ac i ganfod cyfleoedd i ddatblygu gwasanaeth. Tra bo rhaid i hyn fod yn gadarn ac yn effeithiol, dylai fod yn gymesur â lefel yr ariannu.

Mae'r Cyngor a'r Trydydd Sector yn cydnabod y bydd gofynion monitro a gwerthuso gwahanol ar gyfer gwahanol fathau a lefelau o ariannu. Bydd y rhain yn seiliedig ar egwyddorion gwerth am arian.

Bydd gofynion monitro a gwerthuso wedi'u nodi yn y cytundeb ariannu.

**(i) Monitro**

- **<u>Cyllid refeniw ar gyfer darparu gwasanaethau a gweithgareddau craidd</u>**
  Dyma'r broses o gasglu a chofnodi gwybodaeth yn rheolaidd. Mae'n cadw cofnod o'r cynnydd a wneir a'r gwaith a gyflawnir yn erbyn amcanion, targedau a dangosyddion a gytunwyd. Mae'r Trydydd Sector yn cydnabod yr angen i gynnal systemau monitro effeithiol.

- **<u>Cyllid cyfalaf ar gyfer prynu asedau</u>**
  Bydd angen tystiolaeth bod y cyllid a ddyrannwyd wedi'i wario ar yr ased a gytunwyd ynghyd â chadarnhad ei fod wedi'i yswirio. Bydd angen anfoneb cyn rhyddhau cyllid. Bydd y Cyngor yn disgwyl diogelu amodau ad-dalu i sicrhau bod gwerth gweddilliol unrhyw ased cyfalaf yn cael ei ad-dalu yn achos ei fod yn cael ei werthu neu, fel arall, nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach ar gyfer y diben a fwriadwyd.

Gall cytundebau cyllido gynnwys amodau lle bo rhaid ad-dalu'r cyllid i'r Cyngor os nad ydynt yn cael eu cyflawni.

**(ii) Gwerthuso**

Dyma'r broses o:-

- edrych ar y monitro a gwybodaeth arall;
- ymgynghori â'r cyhoedd a/neu'r grŵp/grwpiau o bobl sy'n cael budd o waith y mudiad Trydydd Sector a dod i farn am ansawdd a chynnydd y gwaith mewn perthynas â'r disgwyliadau a gytunwyd a'r nodau a fynegwyd. Bydd yn ystyried yr allbynnau a'r canlyniadau mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cyngor. Bydd yn cael ei werthuso ar y cyd o fewn amserlenni a gytunwyd.

Darperir adborth gan y Cyngor o'r gwaith monitro a gwerthuso ac fe'i defnyddir fel sail ar gyfer trafodaethau am y cytundeb i'r dyfodol.

**(iii)** Bydd y Cyngor yn darparu adborth ar y monitro a'r gwerthuso.

Mae Fframwaith Monitro a Gwerthuso yn nodi arfer da o ran y gofynion monitro cyffredinol ar gyfer y Trydydd Sector a'r Cyngor (Atodiad 3).

Bydd gofynion penodol o ran monitro a gwerthuso yn cael eu cytuno ymlaen llaw ar gyfer cytundebau unigol.

Bydd angen i fonitro a gwerthuso canfod sut y mae'r grant/contract yn cyflawni telerau ac amodau'r trefniant cyllido gan gynnwys y targedau a gyflawnwyd a chyfraniad tuag at flaenoriaethau'r Cyngor. Bob chwe mis (canol-blwyddyn ac alldro) bydd adroddiad ariannol a chanlyniadau yn cael ei baratoi i fanylu ynghylch buddsoddiad y Cyngor yn y trydydd sector gan gynnwys y canlyniadau a gyflawnwyd gan y buddsoddiad hwnnw.

## 13. Cyllid allanol a weinyddir gan y Cyngor

Bydd y gweithdrefnau talu'n unol â gofynion y corff ariannu. Ceir manylion am hyn yn y pecyn ymgeisio.

Bydd y gofynion o ran monitro a gwerthuso wedi'u nodi'n glir yn y pecyn ymgeisio. Bydd hyn yn unol â gofynion y corff ariannu, e.e. Llywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

## 14. Adroddiadau Ariannol

Bydd angen i bob sefydliad Trydydd Sector gyflenwi copïau o'u datganiadau ariannol gyda cheisiadau am gyllid. Bydd elusennau'n cadw at ofynion y Comisiwn Elusennau ar gyfer adroddiadau ariannol. Ym mhob achos, gall cytundebau ariannu unigol bennu gofynion ychwanegol o ran adroddiadau ariannol.

## 15. Tanwariant a gorwariant

Mae'r Trydydd Sector yn cydnabod, lle na all mudiad unigol ddarparu'r gweithgaredd neu'r gwasanaeth fel y cytunwyd, mae'n debygol y bydd tanwariant o'r cyllid a ddyrannwyd. Os digwydd hyn, bydd y mudiad Trydydd Sector yn rhoi gwybod i'r Cyngor am y tanwariant a ragwelir mor fuan ag y bo modd. Bydd hyn yn caniatáu cytuno ar drefniadau wrth gefn.

Bydd gorwariant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y mudiad Trydydd Sector. Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau eu hunain fod ganddynt brosesau priodol yn eu lle i ganfod achosion o danwariant a gorwariant yn fuan.

Mae'n rhaid i'r trefniadau monitro chwarterol ar gyfer trefniadau ariannu mwy (£25,000 neu fwy) gynnwys manylion y gwariant hyd yma, y gwariant a amcangyfrifir hyd at ddiwedd y flwyddyn a chyfanswm y gwariant a amcangyfrifir ar gyfer y flwyddyn (h.y. alldro).

## 16. Ymyrraeth pan fo mudiad a ariennir yn cael anawsterau ariannol neu eraill neu pan fo amheuaeth o afreoleidd-dra ariannol

Mae'r Côd Ymarfer wedi'i lunio i leihau'r tebygolrwydd y bydd mudiad yn cael anawsterau ariannol neu eraill. Fodd bynnag, lle bo hyn yn digwydd, dylid dilyn y canllawiau a ganlyn.

Lle bo mudiad Trydydd Sector a ariennir yn cael anawsterau ariannol neu eraill, bydd yr Ymddiriedolwyr yn rhoi hysbysiad ffurfiol buan i'r Cyngor o'u pryderon ac yn datgelu materion perthnasol yn llawn. Yn yr un modd, bydd y Cyngor yn rhoi hysbysiad ffurfiol i fudiad Trydydd Sector pe bai pryderon yn dod i'w sylw.

Lle bo amheuaeth o afreoleidd-dra ariannol, ymchwilir i'r mater gan y Cyngor, neu ei gynrychiolydd penodedig, yn ymchwilio i'r mater gan ofyn am gydweithrediad a mynediad llawn i staff, cofnodion ac eiddo.

Gall y naill barti a'r llall apelio at delerau ac amodau'r cytundeb.

Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cyngor a'r Trydydd Sector yn gweithredu egwyddorion y Compact ac yn cytuno ar gamau i'w cymryd gan y ddau barti.

**17.** **Gweithredu'r côd**

Cyfrifoldeb adrannau unigol o'r Cyngor a mudiadau Trydydd Sector fydd datblygu cynlluniau gweithredu i weithredu'r canllawiau arfer dda yn y Côd hwn. Disgwylir i bob adran a mudiad trydydd sector gydymffurfio â'r Côd hwn.

**18** **Torri'r cod**

Bydd achosion o dorri'r Côd na ellir eu datrys rhwng y mudiad Trydydd Sector unigol ac adran o'r Cyngor yn cael eu cyfeirio at weithdrefn gwynion gorfforaethol y Cyngor. Bydd y canlyniad yn cael ei adrodd i Bwyllgor Cyswllt y Trydydd Sector.

**19.** **Adolygu'r cod hwn**

Bydd y Côd yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Swyddog Adran 151 a'r swyddog Arweiniol enwebedig ar gyfer y Trydydd Sector.

Gwneir newidiadau i'r Côd drwy ymgynghori â Phwyllgor Cyswllt y Trydydd Sector ac yna bydd yn cael ei basio i'r Pwyllgor Gwaith i'w fabwysiadu gan y Cyngor.

**Arwyddwyd gan:** ________________________________________ **Dyddiad:**
**Swyddog Adran 151 CSYM**

**Arwyddwyd gan:**________________________________________ **Dyddiad:**
**Cadeirydd Medrwn Môn**

**Dyddiad adolygu:**______________________________________

**Swyddfa Archwilio Cymru**

**Argymhellion ar gyfer rheoli grantiau'n well yng Nghymru**[v]

**1)** Ystyried symleiddio eu portffolio o grantiau drwy gyfuno cynlluniau lle bo hynny'n briodol.

**2)** Datblygu systemau i sicrhau bod y ffordd yr ymdrinnir ag arian grant ac y gweithredir cynlluniau grant mor gyson â phosibl drwy'r holl adrannau mewnol a, lle y bo modd, â chyllidwyr eraill.

**3)** Gweithio gydag eraill i ddysgu o brofiad, datblygu cynlluniau sy'n ategu ei gilydd a chydgysylltu amserlenni ymgeisio.

**4)** Gweithio'n unigol ac ar y cyd i sicrhau bod gwybodaeth am grantiau yn fwy eglur a hygyrch i ymgeiswyr ac annog cymunedau i ymwneud â hwy mewn ffordd briodol.

**5)** Sicrhau y caiff risgiau sy'n gysylltiedig â hyfywedd, capasiti a gallu ymgeiswyr eu hystyried yn y cam ymgeisio, wedi'u lliniaru gan gymorth ychwanegol lle y byddai hyn yn gost-effeithiol ac wedi'u monitro'n ofalus wrth i'r prosiect gael ei gyflawni.

**6)** Sicrhau bod canlyniadau prosiectau a safonau rheoli prosiect a rheoli ariannol wedi'u diffinio'n glir a bod cytundeb ysgrifenedig yn eu cylch cyn i arian gael ei ryddhau.

**7)** Ystyried rhinweddau cymharol dulliau gweithredu eraill heblaw am arian grant, megis caffael, benthyciadau a buddsoddiadau, cyn ymrwymo i gynllun grant newydd neu barhau â chynllun grant.

**8)** Cymryd camau cadarn pan fydd gordaliadau neu pan fydd grantiau wedi eu camddefnyddio drwy atal arian lle y bo angen, drwy adennill symiau priodol ac, os parheir i roi arian, drwy atgyfnerthu'r gofynion ar y rhai sy'n ei dderbyn a'u trefniadau monitro eu hunain cyn i arian ychwanegol gael ei ryddhau.

**ATODIAD 2**

## MEINI PRAWF ENGHREIFFTIOL AR GYFER SGORIO CEISIADAU GRANT

| Maen Prawf: | Partneriaeth | Cynhwysiad | Cyweddu â blaenoriaethau lleol | Cyweddu â blaenoriaethau CSYM | Cyweddu â blaenor-aethau adrannol | Cynlluniau ar gyfer monitro | Adeiladu capasiti/ grymuso | Ymwybydd-aeth staff/ mesurau cefnogi | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr: | 3 | 3 | 3 | 2 | 3 | 3 | 2 | 2 | 20 |
| Mentrau | | | | | | | | | |

**Partneriaeth [/3] : dyfarnwch farc ar gyfer bob un o'r canlynol:**

- Tystiolaeth bod y Cyngor/partneriaeth Trydydd Sector wedi chwarae rhan mewn llunio'r fenter
- Tystiolaeth glir y bydd y fenter yn cael ei chyflawni drwy'r bartneriaeth hon ac o sut y bydd yn gweithio'n ymarferol
- Tystiolaeth glir o gefnogaeth gan bob partner [e.e. cyfraniadau ariannol, llythyrau yn datgan bwriad]

**Cynhwysiad [/3]: dyfarnwch farc ar gyfer bob un o'r canlynol:**

- Dadl gref o ran pam y mae grŵp yn 'anodd ei gyrraedd' ynghyd â chynigion realistig o ran sut y bydd y fenter yn eu targedu
- Tystiolaeth o gymryd camau a neilltuo adnoddau i helpu grwpiau i oresgyn rhwystrau i gymryd rhan [e.e. gofal plant, trefniadau mynediad, cludiant cymunedol, deunydd darllen/gwasanaethau dwyieithog]
- P'un a fydd modd i'r fenter ymgysylltu â mwy nag un grŵp sy'n 'anodd ei gyrraedd'

**Cyweddu â blaenoriaethau lleol [/3]: dyfarnwch un marc ar gyfer bob un o'r canlynol:**

- Tystiolaeth o gyweddu â blaenoriaethau a gytunwyd yn lleol
- Tystiolaeth o ymgynghori ynghylch cyweddu â blaenoriaethau lleol
- Tystiolaeth o fod yn arloesol wrth fynd ati i gyflawni blaenoriaeth leol

**Cyweddu â blaenoriaethau CSYM [2]: dyfarnwch un marc ar gyfer bob un o'r canlynol:**

- Tystiolaeth o gyweddu â blaenoriaeth CSYM
- Tystiolaeth o gyweddu â mwy nag un o flaenoriaethau CSYM

**Cyweddu â blaenoriaethau adrannol [/3]: dyfarnwch un marc ar gyfer bob un o'r canlynol:**

- Tystiolaeth o gyweddu â blaenoriaeth adrannol
- Tystiolaeth o gyweddu â mwy nag un blaenoriaeth adrannol
- Tystiolaeth o fod yn arloesol wrth fynd ati i gyflawni blaenoriaeth adrannol

**Cynlluniau ar gyfer monitro [/2]: dyfarnwch un marc ar gyfer bob un o'r canlynol:**

- Dyfarnwch un pwynt os mae'r trefniadau monitro wedi'u nodi'n glir
- Dyfarnwch bwynt ychwanegol os mae chwarae rhan weithredol gan y cyhoedd [h.y. yn hytrach na mynd ati'n oddefol i gyfrif y niferoedd sydd wedi chwarae rhan] wedi'i gynnwys fel rhan o'r trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu [e.e. defnyddio ffurflenni adborth, cyfweliadau â defnyddwyr, ymchwil ansoddol]

**Adeiladu capasiti / grymuso [/2]: dyfarnwch un marc ar gyfer bob un o'r canlynol:**

- Mae cynlluniau'n cynnwys pasio sgiliau ymlaen i ddefnyddwyr, gofalwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd
- Tystiolaeth y bydd gwybodaeth glir [ac unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen] ar gael i alluogi unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain

**Ymwybyddiaeth staff / mesurau cefnogi [/2]: dyfarnwch un marc ar gyfer bob un o'r canlynol:**

- Tystiolaeth o sicrhau y bydd staff yn ymwybodol o'r fenter
- Tystiolaeth bod staff yn cael cymorth i'w helpu i gyflawni'r fenter

Nodwch y gellid diwygio'r meini prawf sgorio i adlewyrchu gofynion penodol y cyllid grant sy'n cael ei ddyrannu.

**ATODIAD 3**

## FFRAMWAITH AR GYFER MONITRO A GWERTHUSO

| Gwerth Cyllid y Contract | Ffurf y Cytundeb (lleiafswm) | Monitro blynyddol (lleiafswm) | Monitro chwarterol (lleiafswm) | Gwerthuso |
|---|---|---|---|---|
| £10,000 a llai | • Llythyr derbyn gan Ddeiliad y Gyllideb neu'r Prif Swyddog yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflenwyd yn y cais | • Adroddiad Blynyddol<br>• Datganiad o Gyfrifon<br>• Datganiad monitro cydraddoldeb [h.y. cenedligrwydd, iaith ac ati a ddarperir gan CSYM]<br>• Datganiad o'r canlyniadau a gyflawnir a chadarnhad bod yr arian wedi'i wario'n unol â'r cais<br>• Adborth blynyddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth | | Gwerthusiad blynyddol o'r gwasanaeth (a gynhelir gan y Cyngor) i gynnwys:-<br>• Y graddau y cyflawnwyd gofynion y cytundeb lefel gwasanaeth<br>• Y graddau y mae'r gwasanaeth yn diwallu'r anghenion ac yn cyflawni'r blaenoriaethau presennol<br>• Y graddau y mae gan y gwasanaeth y capasiti i ddiwallu anghenion a ragwelir i'r dyfodol<br>• Gwerth am arian<br>• Lefel yr adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'r camau a weithredwyd |
| £10,000 i £25,000 | • Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r canlyniadau a fwriedir a'r dangosyddion perfformiad | • Adroddiad Blynyddol<br>• Datganiad o Gyfrifon<br>• Datganiad monitro cydraddoldeb<br>• Datganiad o'r canlyniadau a gyflawnir a chadarnhad bod yr arian wedi'i wario'n unol â'r cais<br>• Adborth blynyddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth. | • Gwerthusiad chwe-misol gyda'r defnyddiwr gwasanaeth a'r sawl sy'n cyfeirio (a gynhelir gan y sefydliad Trydydd Sector) gyda chynllun gweithredu wedi'i gysylltu â'r canlyniadau a fynnir.<br>• Monitro chwemisol. | Gwerthusiad blynyddol o'r gwasanaeth (a gynhelir gan y Cyngor) i gynnwys:-<br>• Y graddau y cyflawnwyd gofynion y cytundeb lefel gwasanaeth<br>• Y graddau y mae'r gwasanaeth yn diwallu'r anghenion ac yn cyflawni'r blaenoriaethau presennol<br>• Y graddau y mae gan y gwasanaeth y capasiti i ddiwallu anghenion a ragwelir i'r dyfodol<br>• Gwerth am arian<br>• Lefel yr adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'r camau a weithredwyd |
| £25,000 a throsodd | • Cytundeb Lefel Gwasanaeth / contract gyda'r canlyniadau a fwriedir, y dangosyddion perfformiad a'r safonau gwasanaeth | • Adroddiad Blynyddol<br>• Datganiad o Gyfrifon<br>• Datganiad monitro cydraddoldeb.<br>• Adolygiad Gwasanaeth a fynychir gan swyddog priodol o CSYM [Deiliad Cyllideb neu aelod o'r Tîm Comisiynu]<br>• Datganiad o'r canlyniadau a gyflawnir a chadarnhad bod yr arian wedi'i wario'n unol â'r cais<br>• Adborth chwarterol gan ddefnyddwyr gwasanaeth. | • Datganiad monitro chwarterol (templed i'w gytuno â deiliad y gyllideb a'r sefydliad Trydydd Sector), i gynnwys y gwariant hyd yma, y gwariant a amcangyfrifir hyd at ddiwedd y flwyddyn a chyfanswm y gwariant a amcangyfrifir ar gyfer y flwyddyn.<br>• Gellir cynnal cyfarfodydd monitro i fynd ar drywydd materion a godwyd yn y datganiad monitro.<br>• Gwerthusiad chwarterol gyda'r defnyddiwr gwasanaeth a'r sawl sy'n cyfeirio (a gynhelir gan y sefydliad Trydydd Sector) gyda chynllun gweithredu wedi'i gysylltu â'r canlyniadau a fynnir. | Gwerthusiad blynyddol o'r gwasanaeth (a gynhelir gan y Cyngor) i gynnwys:-<br>• Y graddau y cyflawnwyd gofynion y cytundeb lefel gwasanaeth<br>• Y graddau y mae'r gwasanaeth yn diwallu'r anghenion ac yn cyflawni'r blaenoriaethau presennol<br>• Y graddau y mae gan y gwasanaeth y capasiti i ddiwallu anghenion a ragwelir i'r dyfodol<br>• Gwerth am arian<br>• Lefel yr adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'r camau a weithredwyd |

# LLYFRYDDIAETH


- Cyngor Sir Ynys Môn, 2015, Compact Ynys Môn
- Cyngor Sir Ynys Môn, 2015, Strategaeth a Pholisi Caffael
- Cyngor Sir Ynys Môn, 2015, Rheolau Gweithdrefn Contractau
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, HMSO
- Swyddfa Archwilio Cymru, 2011, Rheoli Grantiau yng Nghymru (i)
- Llywodraeth Cymru, Ionawr 2014, 'Cod Ymarfer ar gyfer Gyllido'r Trydydd Sector'

**ATODIAD 3**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Polisi Gwirfoddoli

Draft

## 1. Sgôp

Mae'r polisi yma'n ategu un o egwyddorion craidd y cytundeb Compact rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn mewn perthynas â gwirfoddoli.

Cytundeb partneriaid rhwng y sector wirfoddol a'r awdurdod lleol ar Ynys Môn yw'r Compact. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu nodau ac amcanion cyffredin, parch rhwng y naill ochr a'r llall a dealltwriaeth y bydd yn cynorthwyo'r sectorau cyhoeddus a phartneriaid trydydd sector i wella ansawdd bywyd i bobl Ynys Môn.

## 2. Datganiad Polisi

Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y gall gwirfoddolwyr ei wneud i'r sefydliad. Daw gwirfoddolwyr ag amrywiaeth o brofiad, cefndiroedd, sgiliau, oed ac agweddau sy'n ychwanegu gwerth at y gwasanaethau a ddarperir. Bydd y polisi hwn yn:-

- Gadael i wirfoddolwyr wybod sut y byddwn yn sicrhau tegwch a chysondeb;
- Galluogi gwirfoddolwyr i wybod lle maent yn sefyll;
- Cynnig sicrwydd o ran gwybod sut y byddant yn cael eu trin;
- Helpu staff a gwirfoddolwyr ddeall swyddogaethau ei gilydd.

Yn ychwanegol, mae'r polisi hwn yn gosod yr egwyddorion bras o ran gweithio gyda gwirfoddolwyr o fewn y Cyngor mewn modd sy'n deg ac yn gyfiawn. Ei nod yw sicrhau bod buddiannau gwirfoddoli yn cael eu huchafu ar gyfer gwirfoddolwyr a'r Cyngor. Mae'n berthnasol i bawb o fewn y Cyngor, gan gynnwys gwirfoddolwyr, staff ac Aelodau etholedig.

Mae'r polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor fel rhan o'r cytundeb Compact ac fe fydd yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol fel rhan o'i gylch gwaith i weithredu egwyddorion y cytundeb Compact.

## 3. Diffiniad

Mae gwirfoddoli'n fynegiant pwysig o Ddinasyddiaeth yn ogystal ag elfen bwysig o ddemocratiaeth. Pobl sydd, heb dal ac o'u gwirfodd, yn cyfrannu eu hamser, egni a'u sgiliau er budd y gymuned yw gwirfoddolwyr. Gall gwirfoddoli ddigwydd am gyfnod cyfyngedig (er enghraifft, i helpu cwblhau prosiect neu ddigwyddiad penodol), neu gall fod ar sail barhaus (er enghraifft, i helpu darparu gwasanaeth penodol o ddydd i ddydd).

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i drefnu ei wirfoddoli yn effeithlon ac mewn modd sensitif fel bod yr anrheg werthfawr o amser y gwirfoddolwyr yn cael ei ddefnyddio er budd pawb sy'n ymwneud â'r mater.

Rhoddir isod rai enghreifftiau o'r gwahanol ffyrdd y mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu at waith y Cyngor:

- Llywodraethwyr Ysgolion;
- Chwaraeon a chefnogi chwaraeon;
- Cynlluniau cludiant;
- Cynlluniau rheoli cefn gwlad;
- Adfocatiaeth (gwasanaethau cymdeithasol).

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gynnwys gwirfoddolwyr mewn sefyllfeydd addas ac mewn modd sy'n annog, cefnogi a datblygu gwirfoddoli.

## 4. Pam cael Polisi?

Mae polisi ysgrifenedig yn rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i bwysigrwydd gwirfoddolwyr ac yn sicrhau y bydd yr amcanion canlynol yn cael eu cwrdd:-

- Gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addas trwy weithdrefn dewis addas sy'n cynnwys tystlythyrau a gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), petai angen;
- Gwirfoddolwyr yn cael eu croesawu, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn anwythiad perthnasol gan y gwasanaeth dan sylw;
- Cyfraniadau gwirfoddolwyr yn cael eu huchafu trwy ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth addas;
- Mwy o bobl yn cael eu hannog i gymryd rhan fel gwirfoddolwyr;
- Mwy o wirfoddolwyr yn parhau i gymryd rhan.

Bydd y polisi hwn yn cynorthwyo'r holl staff sy'n ymwneud â recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr i lynu at arferion da a chefnogi gwirfoddolwyr mewn modd sydd wedi ei gynllunio a'i reoli.

## 5. Beth yw buddiannau cael gwirfoddolwyr?

- Mae modd defnyddio a datblygu profiadau a sgiliau i gael effaith gadarnhaol ar ystod o wasanaethau a phrosiectau;
- Mae gwirfoddolwyr yn gallu bod yn hyblyg ac yn arloesol;
- Mae gwirfoddolwyr yn gwella'r synnwyr o gymuned a helpu i adeiladu cymdeithas gynhwysol;
- Mae'r gymuned a'r amgylchedd yn cael budd o gyfraniadau gwirfoddolwyr.

## 6. Egwyddorion

### 6.1 Recriwtio a Dethol

Mae'r Cyngor yn anelu at recriwtio gwirfoddolwyr o bob rhan o'r gymuned gydag ystod eang o sgiliau, profiadau bywyd a gwybodaeth.

Bydd recriwtio gwirfoddolwyr fel arfer yn digwydd trwy bostio hysbysebion a thaflenni, taflenni newyddion ac ar y safle we corfforaethol. Gallai ddigwydd hefyd trwy gysylltu'n anffurfiol gyda'r gymuned o ddefnyddwyr sy'n bodoli eisoes.

Bydd yr holl ddarpar wirfoddolwyr yn cael eu cyfweld er mwyn trafod eu sgiliau, rolau a disgwyliadau. Bydd y drefn ar gyfer dethol yn dilyn yn fras y prosesau yr ymlinellir ym Mholisi Recriwtio a Dethol yr Awdurdod (lle mae hynny'n briodol), ac fe fydd yn cynnwys tystlythyrau a gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), os yn berthnasol.

### 6.2 Statws Gwirfoddolwyr

Nid yw gwirfoddolwyr yn gyflogeion nag yn weithwyr ac ni fydd ganddynt gontract cyflogaeth gyda'r Cyngor. Ni fydd tâl am unrhyw waith gwirfoddoli. Bydd y Cyngor yn cytuno rôl gyda'r gwirfoddolwr, bydd disgwyliad bod y gwirfoddolwr yn cwrdd ag anghenion y rôl ac fe fydd y Cyngor yn darparu gwaith i'r gwirfoddolwyr lle mae yna waith ar gael. Fodd bynnag, mae'r gwirfoddolwr yn rhydd i wrthod cyflenwi'r rôl ac nid yw'r Cyngor wedi'i ymrwymo i ddarparu'r gwaith.

Noder: Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i ofalwyr maeth.

### 6.3 Rolau Gwirfoddoli

Cyfrifoldeb y rheolwr sy'n gweithio gyda'r gwirfoddolwr fydd llunio amlinelliad o rôl y gwirfoddolwr. Bydd hyn yn gosod allan dyletswyddau'r rôl a'r sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol, ynghyd ag unrhyw hyfforddiant sydd ei angen cyn y bydd y gwaith gwirfoddol yn cael ei wneud. Fe ddylai gwaith gwirfoddol ategu gwaith staff cyflogedig ac ychwanegu gwerth er budd defnyddwyr y gwasanaeth. Nid yw gwirfoddolwyr yna i gymryd lle gweithwyr cyflogedig, felly mae angen cymryd gofal i sicrhau nad oes galwadau gormodol ar wirfoddolwyr, ac nad ydynt yn gwneud gwaith a ddylai gael ei wneud gan staff cyflogedig.

### 6.4 Goruchwyliaeth a Chefnogaeth

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac effeithiolrwydd ei wirfoddolwyr. Fe gyflawnir hyn trwy ddarparu:-

- Hyfforddiant a datblygiad addas;
- Gwaith ystyrlon o fewn blaenoriaethau'r gwasanaeth;
- Goruchwyliaeth effeithiol;
- Cydnabyddiaeth am y gwaith a gwblhawyd;
- Targedau a blaenoriaethau eglur a safonau addas o ran y gwaith sydd i'w wneud.

Bydd hawl gan wirfoddolwyr gael tystlythyr gan y Cyngor. Mae hyn yn amodol ar i'r gwirfoddolwr gwblhau o leiaf 30 awr o waith gwirfoddol sydd o safon foddhaol wrth weithio'n uniongyrchol ar ran y Cyngor.

### 6.5 Cyfrinachedd

Bydd angen i wirfoddolwyr arwyddo cytundeb cyfrinachedd, lle mae hynny'n briodol.

### 6.6 Gweithdrefn Gwyno

Dylai gwirfoddolwyr drafod unrhyw bryderon neu broblemau gyda'u goruchwylwyr uniongyrchol.

### 6.7 Treuliau

Bydd gwirfoddolwyr yn cael cynnig ad-daliad treuliau teithio rhesymol o'u cartref i'w lleoliad gwaith, lle mae hynny'n briodol. Gosodwyd lwfans milltiredd i'r rhai hynny sy'n defnyddio eu cludiant eu hunain, sef 18 ceiniog y filltir. Rhaid cytuno'r holl dreuliau ymlaen llaw gyda goruchwyliwr uniongyrchol y gwirfoddolwr.

### 6.8 Rhybudd

Dylai'r Cyngor neu'r gwirfoddolwr ymdrechu i roi cymaint o rybudd a phosibl o'u bwriad i ddod a'r cytundeb gwirfoddoli i ben.

## 7. Cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a phrotocolau'r Cyngor

Mae nifer o faterion penodol yn berthnasol i'r polisi gwirfoddoli yma:-

### 7.1 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gydraddoldeb ac amrywiaeth, wrth ddarparu gwasanaethau ac fel cyflogwr mawr, ac i ddileu gwahaniaethu annheg ac anghyfreithlon ym mhob un o'n bolisïau, gweithdrefnau ac arferion. Mae'r Cyngor yn trin pawb gyda pharch, consyrn ac yn ystyriol ac yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a roddir i Ynys Môn gan bob unigolyn. Bydd disgwyl i wirfoddolwyr dderbyn a gweithio'n unol â'r egwyddorion hyn.

### 7.2 Cynllun Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn cydnabod statws cyfartal i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Y Gymraeg a'r Saesneg fydd ieithoedd swyddogol y Cyngor a bydd iddynt yr un statws a dilysrwydd yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cyngor. Bydd disgwyl i wirfoddolwyr fod yn ymwybodol o'r egwyddor yma.

### 7.3 Iechyd a Diogelwch

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch gwirfoddolwyr. Rhaid trin gwirfoddolwyr yn yr un modd a staff cyflogedig o ran iechyd a diogelwch. Dylai gwirfoddolwyr ddilyn bob amser bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Cyngor. Rhaid i berson cymwys gynnal asesiad risg o'r mannau a'r rolau gwaith penodol y gwirfoddolwyr ac fe ddylid rhoi copi i'r gwirfoddolwr. Mae gan y gwirfoddolwyr ddyletswydd i gymryd gofal o'u hunain ac eraill a all gael eu heffeithio gan eu gweithrediadau. Ni ddylai gwirfoddolwyr weithredu y tu allan i'w man na'u dyletswyddau gwaith awdurdodedig. Rhaid i wirfoddolwyr roi gwybod i'w goruchwyliwr am bob damwain neu unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn agos i fod yn ddamwain.

### 7.4 Polisïau Diogelu

Mae angen i wirfoddolwyr gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau diogelu'r Cyngor mewn perthynas â phobl fregus lle mae hynny'n briodol.

### 7.5 Yswiriant

#### 7.5.1 Cyffredinol

Bydd gwirfoddolwyr yn cael indemniad yn erbyn hawliadau trydydd parti o dan Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus y Cyngor wrth gwblhau eu dyletswyddau.

#### 7.5.2 Gyrwyr

Bydd rhaid i unrhyw berson sy'n gweithredu fel gwirfoddolwr ar ran y Cyngor ac angen defnyddio cerbyd i wneud hynny (preifat neu gerbyd y Cyngor), gydymffurfio gyda Pholisi Fflyd a Gyrwyr y Cyngor.

### 7.6 Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DSB)

Lle mae'r weithred gwirfoddoli yn ymwneud â phlant a phobl ifanc o dan 18 oed neu oedolion bregus, rhoddir gwybod i'r gwirfoddolwr bod rhaid gwneud cais am Ddatgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Rhoddir arweiniad gan yr adran berthnasol yn y Cyngor.

---

[i] CSYM, 2013, Cynllun Corfforaethol 2013-17, Rhagair
[ii] CSYM, 2013, Cynllun corfforaethol 2013-2017, tud 2
[iii] CSYM, 2015, Côd Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector
[iv] IACC, 2013, Polisi Gwirfoddoli